# CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR

## COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 4 Chwefror 2020

Neuadd Coedybryn 7.30 y.h.

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol** | Cyng Mark Davies (Cadeirydd)<br>Cyng Julie Davies<br>Cyng Evan John Jones<br>Cyng Emyr Jones | Cyng Owenna Davies<br>Cyng Llyr Evans<br>Cyng Teifi Evans<br>Cyng Maldwyn Lewis |
| **Ymddiheuriadau** | Cyng Roger Davies | Cyng Ceri Jones |
| **Clerc** | Lynda Williams | |

| Eitem ar yr Agenda | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|
| 1. **Ymddiheuriadau** | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gyng Roger Davies a Chyng Ceri Jones | | |
| 2. **Cadarnhau cofnodion** | Cofnodion 4/01/20 – Cadarnhawyd gan Owenna Davies; eiliwyd gan Emyr Jones. | | |
| 3. **Datgelu Buddiannau** | Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau | | |
| 4. **Materion yn Codi o'r cofnodion** | • Nid yw Nat West wedi diwygio manylion y cyfeiriad/llofnodwyr o hyd. Bydd y Clerc yn parhau i gysylltu er mwyn ceisio sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni. Mae LLE a JD yn oedi cyn llofnodi'r ffurflenni nes caiff y problemau presennol eu datrys.<br><br>• Eisteddfod 2020 – Ar ran pwyllgor yr Eisteddfod, roedd OD yn dymuno diolch i'w pwyllgorau lleol am eu hymdrechion i gyflawni'r targed a bennwyd, a rhagori arno (ar hyn o bryd mae £1,000 yn uwch na'r targed wedi cael ei godi). Estynnwyd croeso cynnes i bawb fynychu'r 'Noson Gawl' a drefnir gan gangen leol Merched Y Wawr yn Neuadd Ffostrasol ar 10 Mawrth | Clerc | |
| 5. **Adroddiad a Diweddariad gan y Cynghorydd Sir** | • Mae gwaith yn cael ei wneud ar y ffordd rhwng Penrhiw-pâl a Ffostrasol ar hyn o bryd er mwyn glanhau'r gwteri. Dylai hyn ddatrys rhai o'r problemau gyda dŵr wyneb (ger Arosfa). | | |

- Croesffordd Blaengwenllan – Mae'r cyngor yn ymwybodol o'r problemau gyda dŵr wyneb. Gwnaethpwyd rhywfaint o waith adfer, ond nid yw wedi cael ei gwblhau eto.
- Trafodir Cyllideb y Cyngor Sir a Threth Gyngor ar hyn o bryd.
- Mae Uned Gofalwyr Ceredigion wedi sicrhau Lefel Aur yng Nghynllun Buddsoddwyr mewn Pobl.
- Anogwyd pawb gan ML i roi adborth am y wybodaeth a ddarparwyd ar wefannau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor Sir. Cytunodd pawb bod hon yn ffynhonnell werthfawr sy'n cynnig y wybodaeth leol ddiweddaraf.

6. **Gohebiaeth**

- Darparwyd 'Amserlen Ariannol Flynyddol o Gamau Gweithredu' gan Un Llais Cymru. Cyflawnwyd pob cam gweithredu tan bwynt 5.
- Nid oes unrhyw gynghorydd ar gael i fynychu cyfarfod Pwyllgor Ardal Ceredigion (5/2/20). Bydd y clerc yn cael copi o'r cyflwyniad ynghylch y gofynion i gynghorau cymuned ynghylch gwefan a'r diweddaraf am Fil Llywodraeth Leol Cymru a sut y bydd yn effeithio ar gynghorau lleol. Clerc
- Cafwyd llythyrau yn gofyn am gymorth ariannol gan Dreialon Cŵn Defaid Rhyngwladol Ceredigion 2020 a Ambiwlans Awyr Cymru.. Anfonwyd atebion yn nodi'r amserlenni/gofynion mewn perthynas â gofyn am arian grant.
- Cafwyd llythyr gan Ben Lake AS, yn diolch i'r cyngor cymuned am eu gwaith yn y gymuned, ac yn cynnwys posteri i'w harddangos yn y 'blychau' lleol.

7. **Ariannol**

- HMRC - £42.40
- Cyflog y Clerc - £169.00
- Treuliau y Clerc £61.98
- Ashmole & Co -£132
- Llinos Jones - £189.60
- Clwb Bowls Rhydlewis - £130
- Eglwys St Michael, Troedyraur - £200
- Capel Twrgwyn - £200
- Eisteddfod Rhydlewis - £200
- Neuadd Rhydlewis - £200
- Eglwys St Cynon - £200

Cafwyd y Dystysgrif gan y Rheolydd Pensiynau; a bydd angen cadw hon.

8. **Cynllunio**

- A191040, Llangynllo, Coed-y-bryn. Ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiad, ond roedd y cynghorwyr yn dymuno nodi'r canlynol:
    - Ni ddylai unrhyw lwybr troed neu hawl tramwy presennol gael eu rhwystro ar unrhyw adeg.
    - Dylid dilyn y sylwadau a nodwyd gan yr adran Briffyrdd gan ei bod yn hysbys bod problemau draeniau yno.
- A200076 – Ysgol Rhydlewis. – Ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiad

| | | |
|---|---|---|
| **9. Materion Ardal** | • Rhestr o Asedau'r Cyngor Cymuned – bydd y Clerc yn diweddaru'r rhestr, gan roi cyfeirnod i bob eitem. Bydd pob cynghorydd yn archwilio eu hardaloedd lleol er mwyn nodi lleoliad eitemau. | Pawb |
| | • Ffostrasol – mae 'parcio' yn parhau i fod yn broblem pan drefnir digwyddiadau yn neuadd y pentref. | |
| | • Ffostrasol – Bocs Blodau – i'w drafod yn ystod y cyfarfod ym mis Mawrth | |
| | • Bwlch-y-groes – Mae Capel Bwlch-y-groes yn trafod gwneud cais am ddiffibriliwr yn y pentref. | |
| | • Brongest – canghennau uwch ben – rhiw Salem o Aelybryn (torrwyd rhai canghennau, ond mae gofyn gwneud gwaith pellach) | |
| | • Rhydlewis – Canghennau uwch ben (ger Penparc) | |
| | • Trwsio Pont Rhydlewis – gwaith heb ei gwblhau ar Ceredigion Clic. | |
| | • Gorchudd manol/twll ym Mhenrhiw-pâl – mae'n parhau i fod yn broblem | |
| | • Glanhau/cynnal a chadw lloches bws Ffostrasol, i'w ystyried yn ystod y cyfarfod nesaf. | OD |
| | • Anfonir e-bost at S Bray ynghylch y goleuadau stryd yng Nghoed-y-bryn (adroddwyd yn flaenorol) | Clerc |
| | • Trefnir ymweliad ag Eirian James er mwyn diolch iddi am ei holl waith caled fel cynghorydd lleol dros y blynyddoedd. Bydd EJ, MD a JD yn ymweld. | MD |
| **10. Cynghorydd Newydd** | I'w drafod yn ystod y cyfarfod ym mis Mawrth | Clerc |
| **11. Ffurflenni Banc** | Eitem heb ei gwblhau. Bydd MD, CJ, LlE, a JD yn anfon ffurflenni ar ôl datrys y problemau presennol. | Clerc |
| | Mae'n ymddangos bod y llofnodwyr yn anghywir o hyd. | Clerc |
| | Trosglwyddir £2,000 o'r cyfrif wrth gefn i'r cyfrif cyfredol. Bydd OD ac EJ yn ymweld â Nat West | OD/EJ |
| **12. Archwiliad** | Anfonir llythyr at Un Llais Cymru yn gofyn am arweiniad. | Clerc/MD |
| **13. Archwilydd Mewnol** | ML i gysylltu â D Morgan gan ofyn a fyddai ganddo ddiddordeb | ML |
| **14. Eitemau i'w trafod yn ystod y cyfarfod nesaf** | Materion Lleol: Penodi cynghorydd newydd; Archwiliad; Rhestr Asedau y Cyngor, Bocs Blodau Ffostrasol; Ffurflenni Banc; Archwilydd Mewnol. | |
| **15. Dyddiad, lleoliad ac amser y cyfarfod nesaf** | Neuadd Rhydlewis, 3 Mawrth 2020 am 7:30yh | |

Llofnodwyd (Cadeirydd) ________________________________________

Llofnodwyd (Is-gadeirydd ________________________________________